# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Gwener, 27 Hydref 2023

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), B Davies, G Horton, P Bright and M Evans

Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Janice Dent (Policy and Partnership Manager), Silvia Gonzalez-Lopez (Waste Recycling Strategy Manager), Tracy McKim (Head of People, Policy and Transformation), Steve Manning (Senior Scientific Officer) and Kate Wood (Project Manager)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr S Cocks and L James

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ymateb pellach wedi bod gan Brifysgol De Cymru. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol nad oedd unrhyw wybodaeth newydd.

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **9 Hydref 2023 yn gofnod gwir a chywir.**

3 **Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer**

**Gwahoddedigion:** **Steve Manning (Uwch Swyddog Gwyddonol)**
**Silvia-Gonzalez Lopez (Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd)**

Cyflwynodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad.

- Holodd y Pwyllgor pam y bu bwlch rhwng Cynlluniau a pham mai $NO_2$ oedd yr unig ddefnydd gronynnol a fesurwyd. Nododd yr Uwch Swyddog Gwyddonol y bwlch rhwng Cynlluniau a sicrhaodd y Pwyllgor mai diweddaru'r Cynllun oedd eu ffocws dros y tair blynedd ers iddynt ymuno â Chyngor Dinas Casnewydd. Hysbyswyd y Pwyllgor bod $NO_2$ wedi cael ei fesur am mai dyma'r oeddent yn gallu ei fonitro orau ac y gallai gwerthoedd $NO_2$ ddangos gyda sicrwydd

rhesymol lefelau gronynnau eraill. Hysbyswyd y Pwyllgor, gyda deddfwriaeth yn y dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn 2025, y byddai

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.*

mwy o bwyslais yn cael ei roi ar fonitro arall, ond eu bod yn aros ar gyfarwyddyd ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer hyn.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r paramedrau a ddangosir yn nhabl 5.5 gael eu hesbonio yn nhermau lleyg a gwnaeth yr Uwch Swyddog Gwyddonol hyn.

- Teimlai'r Pwyllgor fod yr adroddiad yn anodd ei ddarllen a'i ddeall ac y gellid gwella hyn i sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch. Eglurodd yr Uwch Swyddog Gwyddonol fod y ddogfen yn weddol amrwd a chytunodd y gellid ei gwella ond eglurodd fod yn rhaid iddynt lynu at y templed a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae angen ei hadrodd yn cael ei dangos. Nododd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y gellid creu dogfen eilaidd, fwy hygyrch i gyd-fynd â'r ddogfen dechnegol a'r broses ymgynghori. Croesawodd y Pwyllgor ddogfen gryno.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut y casglwyd data ar gyfer 2024. Eglurodd yr Uwch Swyddog Gwyddonol fod y data wedi'i ragweld trwy fodelu.

- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r terfyn o 20mya yn effeithio ar lygredd. Tynnodd yr Uwch Swyddog Gwyddonol sylw at y data modelu ond dywedodd wrth y Pwyllgor fod yn rhaid iddynt hefyd edrych at enghreifftiau o'r byd go iawn, ac na ychwanegwyd unrhyw fater arwyddocaol o ganlyniad.

- Nododd y Pwyllgor fod rhai ardaloedd a oedd yn cael eu monitro wedi gweld adroddiad o ddim newid neu waethygu o ran ansawdd aer. Amlygodd yr Uwch Swyddog Gwyddonol y byddai angen adolygiad monitro manwl ar ardaloedd sydd yn agos at dorri safonau ansawdd aer ond nododd fod y duedd gyffredinol yn dangos gostyngiad.

- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Nododd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl ymgynghori.

- Teimlai'r Pwyllgor fod yr animeiddiad a ddarparwyd yn ddefnyddiol ond mynegodd bryder ynghylch cwestiynau arolwg yr ymgynghoriad a gofynnodd beth roeddent ei eisiau gan y cyhoedd o'r ymgynghoriad. Eglurodd yr Uwch Swyddog Gwyddonol ei fod yn waith ar y gweill. Sicrhaodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y Pwyllgor nad oedd yr ymgynghoriad wedi'i gyfyngu i'r ddogfen a ddarparwyd a hysbysodd y Pwyllgor fod trafodaethau uniongyrchol yn digwydd gyda grwpiau a sefydliadau ARhAA a bod yr arolwg wedi'i gynllunio i gasglu barn trydydd parti.

- Amlygodd y Pwyllgor fod 17 cwestiwn yn nogfen yr arolwg a dim ond 5 oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r wybodaeth ynghylch ansawdd aer. Nododd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd fod safon nifer y cwestiynau mewn unrhyw arolwg. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod cwestiynau data cydraddoldeb yn ddewisol i'r rhai a oedd yn ateb arolwg a'u bod wedi'u cynnwys i sicrhau nad oedd cymunedau'n cael eu colli o ran derbyn gwybodaeth.

**Casgliadau:**

- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid creu dogfen gryno sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i leygwyr ac sy'n cynnwys hyperddolenni i ddogfennau perthnasol eraill i'r rhai sy'n dymuno darllen ymhellach. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyhoeddi hyn ar y wefan ac ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori.

4 **Diweddariad ar y Gyllideb ac Ymgysylltu**

**Gwahoddedigion:** **Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid Chorfforaethol)**
**Tracy Mckim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)**
**Robert Green (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol yr adroddiad. Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid grynodeb o'r sefyllfa, a rhoddodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid grynodeb o safbwynt yr ymgynghoriad.

- Nododd y Pwyllgor fod cyllideb 2023-24 wedi adlewyrchu'r cynnydd yn y boblogaeth dros bum mlynedd ac yn cwestiynu a fyddai rhagdybiaethau yn seiliedig ar gyfrifiad 2021 yn cael eu gweld eleni. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y Pwyllgor fod LlC wedi cyflwyno hanner effaith y cynnydd y llynedd a'u bod yn gweithio ar y sail y byddai'r effaith lawn yn cael ei gweld eleni. Roeddent yn aros i weld a yw LlC yn gwneud unrhyw newid i adlewyrchu newidiadau dilynol yn y boblogaeth ers y cyfrifiad.

- Gofynnodd y Pwyllgor pam y derbyniwyd llai o ymatebion a theimlai y gallai arolwg cyllideb parhaus ar y wefan fod yn fuddiol. Roedd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn hyderus bod y ffaith nad oedd yr arolwg wedi mynd allan i arolygon wifi bysiau yn rhannol gyfrifol. Eglurodd eu bod wedi cynnwys yr arolwg hwn gyda'r arolwg diogelwch cymunedol gan ei fod yn boblogaidd fel arfer. Amlygwyd bod llawer o ymgynghoriadau wedi bod eleni ac y dylid ystyried gorflinder arolygon. Roedd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn deall y pwynt ynglŷn ag arolwg blwyddyn o hyd ac amlygodd bwysigrwydd dal y foment lle mae pobl eisiau rhoi eu barn.

- Teimlai'r Pwyllgor efallai na fyddai mynd allan ar yr arolwg diogelwch y cyhoedd yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyn wedi'i wneud i wneud y broses yn fwy effeithlon ond ei bod yn deall y pwynt.

- Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddogion am ansawdd y cwestiynau a'r cynllun clir.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd ymatebion ynghylch cynilion a buddsoddiadau penodol o'r ymgynghoriad blaenorol wedi cael eu defnyddio i ffurfio cwestiynau ar gyfer yr arolwg hwn ac a oedd cwestiynau oedd yn gofyn am arbedion neu atebion eraill yn cael eu defnyddio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod yr ymatebion hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer deallusrwydd a oedd yn helpu i roi ffocws i waith wrth edrych ar arbedion cyllidebol a buddsoddiadau ac y byddai'r cwestiynau a ofynnwyd eleni yn ymwneud â'r arbedion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn 2024-25. Nododd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod ymatebion penodol yn canolbwyntio ar bynciau mwy

penodol yn hytrach na chynnig atebion. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig caniatáu i breswylwyr roi eu barn a derbyn awgrymiadau.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw beth i'w ddysgu gan Gyngor Sir Blaenau Gwent. Teimlai'r Pwyllgor y byddai cyfarfodydd ward ynglŷn â hyn o fudd pe bai Swyddogion Cyllid yn bresennol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol fod dysgu oddi wrth awdurdodau eraill yn bwynt teg a hysbysodd y Pwyllgor fod cyflwyniadau wedi cael eu rhoi i gyfarfodydd ward yn y blynyddoedd blaenorol. Nodwyd nad edrychwyd ar fformat eleni eto ond cytunwyd ei fod yn bwynt dilys i'w ddatblygu.

Gorffennodd y Cadeirydd y darllediad i dderbyn yr Atgyfeiriad Pwnc Craffu cyfrinachol.

## 5 Adroddiad Cynghorydd Craffu

### A) Taflen Weithredu

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Nododd yr Ymgynghorydd Craffu un cam gweithredu lle derbyniwyd ymateb, ond roeddent yn aros am eglurhad ynghylch a oedd angen mwy o wybodaeth.

### B) Y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith a nododd nad oedd unrhyw newidiadau.

### C) Atgyfeiriad Pwnc Craffu

Derbyniodd y Pwyllgor yr Atgyfeiriad Pwnc Craffu a chytuno i wneud trefniadau.

## 6 Digwyddiad Byw

Cliciwch yma i wylio'r recordiad.